

**Cyfarfod y Bwrdd, 20 Gorffennaf 2017****EITEM AR YR AGENDA: 1**

| | |
|---|--|
| Teitl y papur: | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gweithrediadau 2016-17 |
| Diben y Papur: | Rhoi Adroddiad Blynyddol cryno i'r Bwrdd ar waith y Pwyllgor Gweithrediadau yn ystod 2016-17 |
| Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd: | Dim angen penderfyniad. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a thrafod yr Adroddiad Blynyddol |
| Swyddog sy'n cyflwyno'r papur: | Carla Lyne, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Papur wedi'i baratoi gan: | Sarita Marshall, Ysgrifenyddiaeth |
| Cyhoeddi: | Dylid cyhoeddi'r papur hwn |
| Dyddiad ei gyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth | Amherthnasol |

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gweithrediadau, Ebrill 2016 - Mawrth 2017

Rôl a chylch gwaith:

Mae'r Cylch Gorchwyl (gweler Atodiad A) ar gyfer y Pwyllgor Gweithrediadau'n diffinio 'Gweithrediadau' fel *'yr adnoddau a'r gweithgareddau pob dydd hynny sy'n sicrhau bod ymddygiadau a swyddogaethau busnes yn cefnogi gwaith y [Bwrdd] a'r Gweinidogion yn y modd mwyaf effeithiol, er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'*.

Yn ei gyfarfod ar 10 Mai, cynhaliodd y Pwyllgor ei adolygiad blynyddol cyntaf o'r Cylch Gorchwyl, gan edrych ar yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda i arweinwyr Gweithrediadau ac i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; ac ar y gefnogaeth fwyaf buddiol y gallai'r Pwyllgor ei rhoi i'r Bwrdd a sut y gallai ychwanegu'r gwerth mwyaf at ei waith.

Yn ystod y drafodaeth honno, nododd y Pwyllgor y canlynol:

- bod lleihau maint y grŵp (ers iddo gael ei ddiwygio ym mis Hydref 2015) wedi golygu y bu mwy o gydweithio y tu mewn ac y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor;
- ei fod wedi helpu'r Bwrdd i 'redeg y busnes', gan helpu i weithredu newidiadau sy'n effeithio ar staff;
- bod yr aelodau wedi cyd-ewyllysio bod y Pwyllgor yn cydweithio i wneud pethau mewn modd cyson ar draws y Grwpiau.

Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'n croesawu cael eglurhad pellach ar ei rôl a'i gylch gwaith fel rhan o adolygiad yr Ysgrifennydd Parhaol o Gylch Gorchwyl y Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

Busnes y Pwyllgor Gweithrediadau:

Mae'r hyn a ganlyn yn rhoi golwg gyffredinol ar fusnes y Pwyllgor Gweithrediadau yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

Cyfarfu'r Pwyllgor Gweithrediadau bob mis yn ystod 2016-17, ac eithrio misoedd Gorffennaf ac Awst 2016, ac yn y cyfarfodydd hynny cyflawnodd y canlynol:

- Cyfrannodd at faterion yn ymwneud â rheoli presenoldeb, dilyniant busnes, a chynigion ar gyfer penodiadau hyblyg cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd;
- Ystyriodd ddiweddariadau a anfonwyd gan Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol ar faterion a oedd yn cynnwys Rhaglen TGCh y Dyfodol, y cynllun peilot ar gyfer Gweithio'n Hyblyg, a Chynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru;
- Cynorthwyodd y Prif Swyddog Digidol i ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fwrw ymlaen â phenderfyniadau TGCh penodol;
- Ystyriodd faterion Adnoddau Dynol, megis Rheoli Perfformiad, y Rhaglen Dysgu a'r ymgyrch 'Dying to Work';

- Cymeradwyodd newidiadau i bolisiau rheoli cofnodion i'w gweithredu ar draws y sefydliad;
- Rhoddodd arweinyddiaeth ar weithredu dull cyffredin o gynllunio busnes;
- Croesawyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Pwyllgor i drafod sut y gellid cydweithio'n agosach i sicrhau bod hawliau gwybodaeth yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol/polisi;
- Goruchwyliodd ffrwd waith y Gwasanaethau Corfforaethol Cyffredin a Busnes mewn perthynas â'r Rhaglen Paratoi at y Dyfodol;
- Ystyriodd eitemau busnes, megis materion sy'n ymwneud â llywodraethu cyrff hyd braich, caffael, ac iechyd a diogelwch; ac
- Adolygodd ddata rheoli allweddol

O ganlyniad i drafodaethau yn y Pwyllgor, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cysylltiedig, sydd wedi bod yn werthfawr o ran helpu i ddatblygu rhai darnau o waith pwysig a helpu'r Grwpiau i gydweithio. Mae'r materion a ddatblygwyd yn y modd hwn yn cynnwys cynigion ar Weithio Hyblyg, targedu cyfleoedd prentisiaeth yn strategol, a'r Strategaeth Iechyd a Llesiant.

Rhaglen Ymweliadau:

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o gyfarfodydd a sesiynau ymgysylltu mewn swyddfeydd ar hyd a lled Cymru. Mae'n credu y bu'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor a'i waith ac i glywed am yr hyn a wneir mewn swyddfeydd rhanbarthol a'r materion penodol sy'n effeithio ar staff yn y lleoliadau hynny.

Yn 2016-17, ymwelodd y Pwyllgor â'r swyddfeydd canlynol:

| Dyddiad | Lleoliad | Gweithgareddau |
|----------------|-----------------|---|
| Tachwedd 2016 | Aberystwyth | Sesiwn agored i'r uwch dîm Sesiwn agored i'r staff Ymweliad â Chanolfan Milfeddygaeth Cymru Cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithrediadau |
| Chwefror 2017 | Bedwas | Sesiwn agored i'r staff Cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithrediadau |
| Ebrill 2017 | Caerfyrddin | Sesiwn agored i'r staff Ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithrediadau |
| Mai 2017 | Merthyr | Sesiwn agored i staff ar Weithio Hyblyg Cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithrediadau |

Cyfathrebu gwaith y Pwyllgor Gweithrediadau:

Rhoddir nodyn anffurfiol ynghylch pob cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithrediadau i'r aelodau yn fuan wedi'r cyfarfod er mwyn iddynt ei raeadru o fewn eu Grwpiau.

Mae hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd. Os bydd y Pwyllgor wedi ymweld â swyddfa ranbarthol, mae erthygl newyddion gwyno yn amlinellu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod yn cael ei darparu gyda'r nodyn.

Mae'n werth nodi bod un o'r sylwedyddion a fynychodd y Pwyllgor (mae gwahoddiad sefydlog i staff fynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion) wedi dweud bod y Pwyllgor Gweithrediadau, yn ei barn hi, yn un o'r grwpiau strategol mwy gweladwy o fewn y sefydliad.

Aelodaeth y Pwyllgor Gweithrediadau 2016-17:

| Enw Aelod y Pwyllgor Gweithrediadau | Grŵp | Presenoldeb |
|---|---|--|
| Sioned Evans (Cadeirydd o fis Rhagfyr 2015 ymlaen) | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 9 allan o 10 |
| Joanna Jordan | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10 allan o 10 (gan gynnwys dau gyfarfod a fynychwyd gan ddirprwy) |
| Dean Medcraft | Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 10 allan o 10 (gan gynnwys un cyfarfod a fynychwyd gan ddirprwy) |
| Carla Lyne | Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 10 allan o 10 (gan gynnwys un cyfarfod a fynychwyd gan ddirprwy) |
| Peter Kennedy (yn aelod tan fis Rhagfyr 2016) | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 7 allan o 7 (gan gynnwys saith cyfarfod a fynychwyd gan ddirprwy) |
| James Owen (yn aelod o fis Ionawr 2017) | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 2 allan o 3 |
| David Richards (yn ofynnol iddo fynychu'n chwarterol) | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 4 allan o 10 |
| Gawain Evans | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 9 allan o 10 |

Bwrdd(17)040

Mae'r canlynol yn mynychu cyfarfodydd gan weithredu fel cynghorwyr neu sylwedyddion sy'n cymryd rhan

| | | |
|--|---|---|
| Caren Fullerton (gweithredu fel sylwedydd sy'n cymryd rhan o fis Mawrth 2017) | Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | Wedi mynychu pan oedd yr agenda'n cynnwys eitemau a oedd yn berthnasol i'w rôl fel y Prif Swyddog Digidol |
| Marcella Maxwell | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 10 allan o 10 (gan gynnwys un cyfarfod a fynychwyd gan ddirprwy) |
| Sally-Ann Efstathiou | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet | 10 allan o 10 |
| Katie Antippas | Ochr yr Undebau Llafur | 9 allan o 10 |

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Mehefin 2017**

Atodiad A

Pwyllgor Gweithrediadau Llywodraeth Cymru Cylch Gorchwyl

Pwrpas y Pwyllgor Gweithrediadau

Mae'r ddogfen hon yn nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gweithrediadau ar ei newydd wedd er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau a rhanddeiliaid yn gwybod am rôl a chylch gwaith y Pwyllgor.

Cadeirydd

I'w gadarnhau ar ôl trafod â'r Ysgrifennydd Parhaol.

Yr Ysgrifenyddiaeth

Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet.

Rôl y Pwyllgor

Cafodd y Pwyllgor Gweithrediadau newydd ei sefydlu i roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar faterion yn ymwneud â rhedeg Gweithrediadau Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn diffinnir gweithrediadau fel '*yr adnoddau a'r gweithgareddau pob dydd hynny sy'n sicrhau bod ymddygiadau a swyddogaethau busnes yn cefnogi gwaith y [Bwrdd] a'r Gweinidogion yn y modd mwyaf effeithiol, er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru*'.

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau yn Is-bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion gweithredol strategol ac am gyfeirio a chynghori'r Bwrdd ar faterion gweithredol y tu allan i'w gytundeb dirprwyo. Nid yw'r rhestr o'r materion sy'n cael eu dirprwyo wedi ei phennu eto, ond byddai'n cynnwys meysydd megis swyddogaethau Gweithrediadau, Llywodraethiant, Adnoddau Dynol a TGCh.

Wrth gyflawni ei rôl, bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- gweithredu mewn perthynas â materion gweithredol, gydag awdurdod sydd wedi ei ddirprwyo gan yr Ysgrifennydd Parhaol;
- gwneud penderfyniadau ar weithgarwch gweithredol o fewn yr hyn a ddirprwywyd iddo, mewn modd amserol ac agored;
- comisiynu gwaith gan gydweithwyr fel y bo angen er mwyn ei helpu i gyflawni ei bwrpas;
- gweithio ar sail awdurdod dirprwyedig sydd wedi ei enwebu, ac sy'n meddu ar y pwerau priodol;
- gwahodd eraill i fod yn bresennol fel y bo angen er mwyn iddynt gynorthwyo'r trafodaethau;
- ystyried gweithgarwch blaen-gynllunio, gan wneud yn siŵr ei fod yn gydnaws ag uchelgeisiau'r Bwrdd; a

- gweithredu mewn modd hyblyg er mwyn sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau'n digwydd o fewn yr amserlen briodol.

Hefyd, bydd aelodau'r Pwyllgor Gweithrediadau'n cefnogi gweithgarwch gwella busnes ehangach drwy wneud y canlynol:

- hyrwyddo cynigion sy'n helpu i gyflawni amcanion Paratoi at y Dyfodol, gan ddarparu negeseuon cyson sy'n helpu'r sefydliad i ddatblygu a gweithredu mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
- cyflawni swyddogaeth herio mewn perthynas â rhoi mentrau neu bolisïau newydd ar waith;
- sicrhau cydymffurfiaeth weithredol â pholisïau, strategaethau a safonau corfforaethol cytûn;
- mynd ati i gymryd camau o fewn eu Grwpiau eu hunain;
- rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am weithgarwch y Pwyllgor gyda chydweithwyr, gan roi gwybod iddynt am unrhyw gamau a gymerir; a
- derbyn perchnogaeth dros gyflawni'r newidiadau corfforaethol y cyntunwyd arnynt yn eu meysydd busnes eu hunain.

Trefniadau Aelodaeth a Chadeirio

Daw aelodau'r Pwyllgor Gweithrediadau o'r Uwch Wasanaeth Sifil, ac o bedwar Grŵp Llywodraeth Cymru:

- Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet;
- Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol; ac
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Penodir y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, o blith aelodau'r Bwrdd.

Er mwyn sicrhau dilyniant, bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi o blith yr aelodau presennol a chynhelir proses benodi bob dwy flynedd.

Os na all y Cadeirydd fod yn bresennol mewn cyfarfod, dylai un o arweinyr gweithrediadau'r pedwar Grŵp ymgymryd â'r rôl honno.**

Aelodau:

| Aelodau Craidd | Dirprwy |
|--|---|
| Cadeirydd – o blith yr aelodau presennol | o blith yr aelodau presennol |
| Joanna Jordan (Arweinydd Gweithrediadau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) | Tracey Breheny (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)** |
| Dean Medcraft (Arweinydd Gweithrediadau yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) | Carl Alexis(Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus)** |
| Carla Lyne (Arweinydd Gweithrediadau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus) | Pete Jones (Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| Sioned Evans (Arweinydd | Damien O'Brien (Swyddfa'r Prif |

| | |
|---|---|
| Gweithrediadau Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet) | Weinidog a Swyddfa'r Cabinet)** |
| James Owen (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet)** | Julie Carne (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet)** |
| David Richards (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet) – mynychu cyfarfodydd yn charterol | |
| Gawain Evans (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet) | |
| Aelodau sy'n cyflawni rôl gynghori | |
| Marcella Maxwell (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet) | |
| Sally-Ann Efstathiou (Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet) | |
| Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur (fel sylwedydd sy'n cymryd rhan) | |

Bydd gwahoddiad agored i gynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cyfreithiol fynychu'r Pwyllgor i roi mewnbwn cyfreithiol pan fo angen.

Bydd y trefniadau ymgysylltu ar lefel ranbarthol yn cael eu hadolygu a'u cwblhau ym mis Rhagfyr yn dilyn trafodaeth ynghylch Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer adeiladau.

Cworwm**

Nid ystyrir bod gan y Pwyllgor gworwm oni bai bod o leiaf tri arweinydd Gweithrediadau (neu ddau arweinydd Gweithrediadau ac un dirprwy enwebedig) yn bresennol.

Nifer y Cyfarfodydd a'u strwythur

- Bwriad y Pwyllgor Gweithrediadau yw cyfarfod yn fisol
- Neilltuir 2.5 awr** ar gyfer pob cyfarfod
- Bydd yr aelodau'n gallu cynnig eitemau i'w cynnwys ar yr agenda, a chaiff unrhyw eitem a gynigir ei chynnwys yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.
- Bydd 4 eitem sefydlog ar yr Agenda:
 - Paratoi at y Dyfodol;
 - Iechyd a Diogelwch;
 - Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys TGCh, Adnoddau Dynol, Strategaeth Leoli);
 - Materion sy'n ymwneud â Llywodraethiant (yn chwarterol)

Trefniadau Adrodd a Chyfathrebu

Bydd Adroddiad Blynyddol cryno ar waith y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd, ac ochr yn ochr â'r cofnodion ffurfiol bydd diweddariadau misol anffurfiol yn cael eu dosbarthu ar gyfer eu rhaedru. Yn ogystal â hyn, bydd gwybodaeth ehangach i staff ar gael ar y fewnwyd pan fo angen.

Bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn gyfrifol am raeadru gwybodaeth o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, fel y bo'n briodol.

Caiff y trefniadau adrodd eu hadolygu ar ôl cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Adolygu

Caiff Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn ei adolygu bob blwyddyn.

****Mewnosodiadau/diwygiadau ers y tro diwethaf i'r Cylch Gorchwyl gael ei ystyried fis Hydref 2015**